



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cydgrynhoi a Diwygio

Hyfforddiant ar gyfer cyfreithwyr awdurdodau lleol – Chwefror 2016

Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru

Amlinelliad

- Cyflwyniad – y sbardunau allweddol ar gyfer diwygio'r gyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Diwygio – y newidiadau allweddol a wneir gan y Ddeddf
- Cydgrynhoi – corffori'r gyfraith bresennol
- Gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Cychwyn a threfniadau trosiannol

Cyflwyniad (1)

- Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion (2011).
- Mae'r Ddeddf yn rhoi effaith i argymhellion allweddol Comisiwn y Gyfraith:
 - Pŵer eang i ddarparu “gwasanaethau gofal cymunedol”
 - Meini prawf cymhwysra cenedlaethol
 - Symleiddio'r gyfraith sy'n ymwneud ag asesu anghenion gofalwyr
 - Egwyddorion statudol
 - Dyletswyddau cydweithredu “cyffredinol” ac “uwch”

Cyflwyniad (2)

- DULL O WEITHREDU SY’N SEILIEDIG AR BOBL
 - Gwneir penderfyniad yn gynnar er mwyn dod â swyddogaethau craidd awdurdodau lleol o ran oedolion a phlant at ei gilydd
- YSTYRIAETHAU POLISI’AU CYFREITHIOL
 - Cydgrynhoi
 - Y Gymraeg
 - Hygyrchedd ac eglurder y gyfraith
- GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNALIADWY
 - Anghenion cynyddol
 - Hinsawdd ariannol anodd
 - Yr angen am bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar



Rhannau'r Ddeddf



Getting in on the Act

1. Cyflwyniad

2.
Swyddogaethau
Cyffredinol

3. Aesu
Anghenion
Unigolion

4. Diwallu
Anghenion

5. Codi Ffioedd
ac Aseidiadau
Ariannol

6. Plant sy'n
Derbyn Gofal a
Phlant sy'n cael
eu Lletya

7. Diogelu

8.
Swyddogaethau
Gwasanaethau
Cymdeithasol

9.
Cydwethrediad
a Phartneriaeth

10. Cwynion
ac Eiriolaeth

11. Amrywiol
a Chyffredinol


Rhan 1: Cyflwyniad: Termau allweddol - “llesiant”

- Ystyr “llesiant”, o ran person, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o’r “canlyniadau llesiant” a restrir yn adran 2(2).
- O ran plentyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys –
 - datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
 - “lles” fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol “welfare” at ddibenion Deddf Plant 1989.
- O ran oedolyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys –
 - rheolaeth ar fywyd pob dydd;
 - cymryd rhan mewn gwaith.



Getting in on the Act


Diffiniad Ilesiant ar gyfer oedolion





Getting in on the Act

Diffiniad Ilesiant ar gyfer plant



Rhan 1: Cyflwyniad: Termau allweddol -“Gofal a chymorth”

- Adran 4: Mae unrhyw gyfeiriad at ofal a chymorth yn y Ddeddf hon i'w ddehongli fel cyfeiriad at-
 - a) gofal;
 - b) cymorth;
 - c) gofal a chymorth.

Rhan 2: Swyddogaethau cyffredinol

- Dyletswydd llesiant
- Dyletswyddau hollgyffredinol
- Aseidiadau o anghenion lleol (aseidiadau poblogaeth)
- Gwasanaethau ataliol
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol etc
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy
- Cofrestrau

Llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol eraill



“Bydd y Ddeddf yn trawsnewid y modd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, drwy hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt.”

Mae angen i chi ddilyn y dyletswyddau hollgyffredinol eraill hefyd:

- Barn, dymuniadau, teimladau
- Cymryd rhan
- Urddas
- Diwylliant

Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo llesiant unigolion.


Hawliau dynol

Dyletswyddau hollgyffredinol – adran 7

- Dyletswydd i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas ag oedolion)
- Dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â phlant)
- Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 2 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Sut i gael gafael ar ofal a chymorth

Dechreuwch yng nghornel chwith uchaf y siart llif a'i dilyn gyda'r cloc (cyfeiriad clocwedd)





Gwasanaethau ataliol

- Rhaid i awdurdodau sicrhau amrediad a lefel o wasanaethau ataliol sy'n:
 - Helpu i atal, arafu neu ostwng yr angen am ofal a chymorth
 - Hyrwyddo magu plant gan eu teuluoedd
 - Lleihau effeithiau anabledd pobl
 - Helpu i atal camdriniaeth ac esgeulustod
 - Galluogi pobl i fyw mor annibynol â phosibl
 - Gostwng yr angen am: orchmynion gofal neu oruchwylio; achosion troseddol yn erbyn plant; cymryd plant i ofal awdurdod lleol neu lety diogel
- Rhaid i fyrddau iechyd lleol hefyd ddefnyddio dulliau ataliol sy'n help i wireddu'r amcanion hyn

Hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol

- Dyletswydd gyffredinol newydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector
- Gweler y cod ymarfer ar Ran 2
- Gweler hefyd y rheoliadau a wnaed o dan adran 16 o'r Ddeddf sy'n darparu mwy o fanylion am y mathau o sefydliadau neu drefniadau sydd i'w trin neu ddim i'w trin fel mentrau cymdeithasol neu fentrau cydweithredol.



Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy



Getting in on the Act


- Dyletswydd yr awdurdodau lleol – gyda chymorth gan eu bwrdd iechyd lleol – i sicrhau darpariaeth o wasanaeth gwybodaeth a chyngor i'r **holl** bobl yn eu hardal
- Cynhorthwy i alluogi mynediad i'r gofal a chymorth hwnnw





Getting in on the Act


Eiriolaeth





Asesu anghenion unigolion

- Hawl i asesiad yn seiledig ar ymddangos eu bod ag angen gofal a chymorth
- Waeth beth fo lefel yr angen neu adnoddau ariannol
- Y nod yw symleiddio asesiadau drwy sefydlu un broses ar gyfer plant, oedolion a gofalwyr





Aseu gofalwr



Getting in on the Act



Rhaid aseu a oes gan y gofalwr anghenion gofal a chymorth



Dyletswydd i aseu waeth beth fo'r adnoddau ariannol



A yw'r gofalwr yn abl ac yn dymuno darparu'r gofal?



Canlyniadau personol

Ystyr 'gofalwr'

“Person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl”

Ni ddylid ystyried gofalwyr proffesiynol, sy'n cael eu talu, fel gofalwyr i ddibenion y Ddeddf, nac ychwaith y bobl sy'n darparu gofal fel rhan o waith gwirfoddol.

Cyfuno asesiadau o anghenion ac asesiadau ar y cyd


- Gall awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion person am ofal a chymorth ag asesiad ei ofalwr
- Mae cyfuno asesiad y person ag asesiad y gofalwr yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cydsyniad adran 28(2) i (7).
- Gall awdurdod lleol wneud asesiadau ar y cyd neu ar ran sefydliad arall (e.e. asesiadau o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010)



Asesu plant



Getting in on the Act





Getting in on the Act

Adolygu asesiadau

*Most
Significant
Change*

Os canfuwyd newid sylweddol mewn canlyniadau, anghenion teulu neu amgylchiadau



Dylid barnu a yw'r newid yn un sylweddol gan gyfeirio at y 5 elfen asesu



Mae'r pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn yn creu hawl i ail-asesu



Mae gan unigolion hawl i ofyn am ail-asesiad o'u hanghenion



Getting in on the Act

Rhywun yn gwrthod asesiad

Oedolyn	<ul style="list-style-type: none">• Oedolyn â diffyg galluedd ac y byddai asesiad er ei les/lles pennaf• Yn cael neu dan risg o gael ei gam-drin neu esgeuluso
Plant	<ul style="list-style-type: none">• Plentyn â diffyg galluedd ac y byddai asesiad er ei les/lles pennaf• Yn cael neu dan risg o gael ei gam-drin neu esgeuluso
Rhieni plentyn dan 16	<ul style="list-style-type: none">• Y plentyn yn cael neu dan risg o gael ei gam-drin neu esgeuluso• Y rhiant â diffyg galluedd• Y plentyn yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac yn anghytuno â barn y rhieni

Rhan 4: Diwallu anghenion

- Dyfarnu cymhwysra
- Sut i ddiwallu anghenion
- Diwallu anghenion – oedolion
- Diwallu anghenion – plant
- Diwallu anghenion – gofalwyr
- Diwallu anghenion – eithriadau a chyfyngiadau
- Taliadau uniongyrchol
- Cynlluniau
- Hygludedd
- Llety sy'n cael ei ffafrio
- Gwarchod eiddo

Meini prawf cymhwysedd cenedlaethol



Getting in on the Act

- Bydd y penderfyniad ynghylch cymhwysedd yn deillio o'r broses asesu ac yn seiliedig ar y broses honno
- Yn dilyn asesiad, bydd rhaid penderfynu a yw'r angen a aseswyd yn gymwys ar sail y meini prawf cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr.
- Ym mhob achos, mae'n rhaid diwallu pedwar amod ar wahân er mwyn i'r angen sy'n cael ei hasesu fod yn gymwys
- Fel mater o drefn, bydd rhaid i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion i amddiffyn person rhag camdriniaeth, esgeulustod neu (ar gyfer plant) niwed, neu'r risg o'r rhain
- Caiff awdurdodau lleol benderfynu diwallu anghenion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.



Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 – oedolion



Getting in on the Act

Bydd yr angen yn deillio o iechyd corfforol neu feddyliol yr oedolyn, ei oed, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau; neu amgylchiadau tebyg eraill

O ganlyniad, ni all yr oedolyn ddiwallu'r angen, naill ai ei hun, neu â gofal a chymorth eraill sy'n fodlon, neu â chynhorthwy gwasanaethau yn y gymuned

- y gallu i gynnal hunanofal neu drefniadau domestig
- y gallu i gyfathrebu
- amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden
- cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu berthnasoedd personol sylweddol eraill
- datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned
- cyflawni cyfrifoldebau gofal dros blentyn

Canlyniad hyn yw na fyddan nhw'n debygol o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau personol oni fydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth



Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 – plant



Getting in on the Act

Bydd yr angen yn deillio o iechyd corfforol neu feddyliol y plentyn, ei oed, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu amgylchiadau tebyg eraill neu os ddiwallir yr angen y bydd yn debygol o gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn

O ganlyniad, ni all y plentyn, ei rieni neu eraill sy'n gofalu amdano ddiwallu'r angen, naill ai ei hunain, neu â gofal a chymorth eraill sy'n fodlon, neu â chynhorthwy gwasanaethau yn y gymuned

- y gallu i gynnal hunan-ofal neu drefniadau domestig
- y gallu i gyfathrebu
- amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden
- cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu berthnasoedd personol sylweddol eraill
- datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned
- cyflawni targedau datblygu

Canlyniad hyn yw na fyddan nhw'n debygol o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau personol oni fydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth



Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 – gofalwyr



Bydd yr angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal ar gyfer naill ai'r plentyn neu oedolyn anabl sydd ag anghenion yn deillio o'i iechyd corfforol neu feddyliol, ei oed, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu amgylchiadau tebyg eraill

O ganlyniad, ni all y gofalwr ddiwallu'r angen, naill ai ei hun, neu â gofal a chymorth eraill sy'n fodlon, neu â chynhorthwy gwasanaethau yn y gymuned

- y gallu i gynnal hunanofal neu drefniadau domestig
- y gallu i gyfathrebu
- amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden
- cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu berthnasoedd personol sylweddol eraill
- datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned
- i ofalwr oedolyn, cyflawni cyfrifoldebau gofal dros blentyn
- i blentyn, cyflawni targedau datblygu

Canlyniad hyn yw na fyddan nhw'n debygol o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau personol oni fydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth i'r gofalwr neu ofal i'r person sy'n cael ei ofalu

Cymhwysra – Cod Rhan 4

- Paragraff 32 - “Ni ddylai’r meini prawf cymhwysra gael eu defnyddio i’w gwneud hi’n ofynnol i unigolion ddangos eu bod wedi rhoi cynnig ar bob ffynhonnell cymorth arall cyn dod yn gymwys i gael cymorth gan awdurdod lleol.”

Rhan 4: Sut i ddiwallu anghenion

- Mae adran 34 o'r Ddeddf yn allweddol er mwyn deall y newid yn y dull gweithredu.
- Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi'r ffyrdd y gellir diwallu anghenion na'r hyn y gellir ei ddarparu neu ei drefnu i ddiwallu anghenion.
- Anogir awdurdodau lleol i ddatblygu atebion arloesol i ddiwallu anghenion.
- Mae adran 34 yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu neu ei drefnu i ddiwallu anghenion, e.e. "llety mewn cartref gofal" neu "gofal a chymorth gartref neu yn y gymuned".



Getting in on the Act

Cynllunio gofal a chymorth



Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu, ac adolygu'n gyson, gynlluniau gofal a/neu gymorth ar gyfer unigolion ag anghenion cymwys



Unigolyn a enwir ar gael fel cydlynnydd i baratoi, cwblhau, adolygu, cyflenwi a diwygio'r cynllun



Rheoliadau Cyfyngiadau ar Baratoi Adroddiadau Mabwysiadu 2005



Sicrhau bydd gwasanaethau i'r byddar-ddall yn briodol



Rhaid ei gwneud yn glir i unigolion pan fydd angen cyfraniad ariannol fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth



Getting in on the Act

Fformat a chynnwys y cynlluniau

Egwyddorion

- Llesiant, person ganolog a seiledig ar ganlyniadau
- Eglur a chryno
- Diogelu
- Integredig

Fformat y cynlluniau

- Seiliedig ar NMDS
- Wedi'i gytuno gan yr awdurdodau lleol a iechyd
- Y Gymraeg wedi ei chynnwys

Cynnwys y cynlluniau

- Canlyniadau
- Anghenion cymorth ac adnoddau
- Gweithredu a sut i'w monitro
- Taliadau uniongyrchol

Hygludedd cynlluniau

- Pan fydd unigolyn sydd â chynllun gofal a chymorth yn symud o un awdurdod lleol i un arall yng Nghymru, bydd y cynllun yn symud gydag ef nes i asesiad newydd gael ei gwblhau
- Nid yw hyn yn gymwys i gynlluniau a ddarperir o dan bwerau disgresiwn
- Bydd “egwyddorion parhad trawsffiniol” yn gymwys pan fydd person yn symud dros ffiniau cenedlaethol fel bod cyn lleied o darfu â phosibl ar y gofal a’r cymorth a ddarperir i’r person hwnnw: Cod Ymarfer Rhan 4 - Atodiad 2



Getting in on the Act

Adolygu cynlluniau



Annog yr unigolion i barhau i gadw rheolaeth dros eu cymorth



Os nad yw'r cynllun yn diwallu'r anghenion asesiedig yna rhaid ei adolygu beth bynnag fo'r dyddiad ar gyfer ei adolygu



Rhaid i'r adolygiad sicrhau bod y person a / neu'r gofalwr, y teulu neu eiriolwr yn cymryd rhan weithredol



Personau awdurdodedig yn cymryd rhan ar gyfer rhai heb fod â galluedd



Yn achos plentyn, bydd y person(au) sydd â chyfrifoldeb rhyant a phobl broffesiynol eraill yn cymryd rhan

Rhan 4: Eithriadau

- Cydgrynhoi'r gyfraith bresennol
- Mae'r eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd (adran 47) yn adlewyrchu'r terfynau ar bwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau iechyd fel y'i penderfynwyd mewn cyfraith achosion bresennol (*Coughlan*)
- Mae adran 47 hefyd yn corffori'r gwaharddiad presennol ar awdurdodau lleol rhag darparu "gofal nyrsio" (adran 49 o Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001)
- Ni chaiff awdurdodau lleol drefnu gofal cartref nyrsio oni bai eu bod wedi cael cydsyniad y corff iechyd perthnasol (gan ddibynnu ble mae'r lleoliad) (gweler y rheoliadau Darparu Gwasanaethau Iechyd)

Rhan 4: Llety sy'n cael ei ffafrio

- Cydgrynhoi'r gyfraith bresennol yn y Cyfarwyddydau Dewis a'r Rheoliadau Taliadau Ychwanegol o dan adran 55 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001
- Rheoliadau newydd o dan adran 57 o'r Ddeddf


Rhan 4: Gwarchod eiddo

- Mae adran 58 yn cydgrynhoi'r gyfraith bresennol sydd yn adran 48 a 55 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948
- Mae wedi ei hestyn i warchod eiddo plant (yn unol â'r "model pobl")
- Mae gofynion cydsyniad ychwanegol yn is-adran (4) er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.



Getting in on the Act

Taliadau uniongyrchol



Rhan 5: Codi ffioedd ac asesiadau ariannol



Disgresiwn i godi ffi ar gyfer oedolion – dim ffi ar gyfer plant



Mae codi ffi yn rhan annatod o'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion oedolion a gofalwyr



Ffi cyfradd safonol ar gyfer gwasanaethau ataliol i oedolion – dim ffi ar gyfer plant



Mae ffioedd cyfradd safonol yn osgoi'r angen am asesiad

Rhan 5: Gorfodi dyledion ac adolygu penderfyniadau i godi ffi

- Cydgrynhoi'r darpariaethau presennol
- Adennill costau, llog etc
- Creu arwystl dros fuddiant mewn tir
 - Nid yw bellach yn rhychwantu tir yn yr Alban
- Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd
- Adolygu penderfyniadau nawr ar gyfer
 - Penderfyniadau ar godi ffi o dan adran 59;
 - Dyfarniadau ar fodd o dan adran 66; a
 - Phenderfyniadau ynghylch atebolrwydd mewn perthynas ag amddifadedd asedau o dan adran 72

Rhan 6: Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

- Mae wedi ei seilio i raddau helaeth ar Ran 3 o Ddeddf Plant 1989 ac Atodlen 2 iddi
- Mae'r fersiwn sydd wedi ei chydgrynhai yn cynnwys diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ond nad oeddent wedi eu dwyn i rym yng Nghymru eto
- Mae tabl o gyrchfannau ar gael a bydd yn cael ei anfon at gynrychiolwyr
- Cadwch lygad am Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) a Chynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

Rhan 6 – Plant sy'n derbyn gofal – y newidiadau

- Maethu i fabwysiadu
 - Adran 81 (10) i (13)
 - Paragraffau 173 i 177 o God Rhan 6
 - Rheoliad 28 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (Rheoliadau CGLIAA)
- Cynllun gofal a chymorth – adran 83
 - Dylid cynnal ac adolygu cynllun gofal a chymorth o dan adran 54 o fewn fframwaith adran 83 a Rheoliadau CGLIAA
- Cymeradwyo dros dro berthynas, ffrind neu berson cysylltiedig arall
 - Rheoliad 26 o Reoliadau CGLIAA – gall gymeradwyaeth dros dro bara am 16 o wythnosau

Rhan 6 - Plant sy'n derbyn gofal – Pan fydda i'n barod

- Adran 108, Aseidiadau llwybr a threfniadau byw ôl-18
- Mae'n gysylltiedig â rheoliad 5 o Reoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1820 (Cy. 262))
- Rheoliad 50 o Reoliadau CGLIAA – dyletswydd i hyrwyddo trefniadau byw ôl-18 drwy ddarparu gwybodaeth amdanynt.

Rhan 6 – Plant sy'n derbyn gofal – y newidiadau – Ymadawyr gofal

- Categori 1 – plentyn cymwys
- Categori 2 – plentyn perthnasol
- Categori 3 – cyn-blentyn perthnasol
- Categori 4 – “ailgysylltwr”
- Categori 5 – yn derbyn gofal gynt ond wedyn yn ddarostyngedig i warcheidiaeth arbennig
- Categori 6 – categori ehangach o blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

Nid yw'r hawliau a hawlogaethau wedi newid
Gweler tudalen 80 o'r Cod ar gyfer Rhan 6

Rhan 6 – Plant sy'n derbyn gofal – llety diogel

- Mae adran 119 ac adran 25 o Ddeddf Plant 1989 bellach yn “diriogaethol”.
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015
- Gofynion gweithdrefnol newydd mewn perthynas â lleoli plant am 72 awr – gweler rheoliad 3
- Dim datgymhwyso adran 119 mewn perthynas â phlant 16 a 17 oed sydd wedi eu lletya
- Gwnaed hefyd reoliadau 2015 -
 - o dan adran 87 o DGCLI sy'n gosod rhwymedigaethau ar ALLau Cymru mewn perthynas â lleoliadau pa un a ydynt yng Nghymru neu yn Lloegr; AC
 - o dan adran 22 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 sy'n gosod rhwymedigaethau ar ddarparwyr cartrefi plant diogel yng Nghymru ni waeth a yw'r lleoliad mewn ALL yng Nghymru neu mewn ALL yn Lloegr

Rhan 7: Diogelu (1) – Dyletswyddau i ymchwilio a hysbysu

- Dyletswydd i ymchwilio adran 126 – sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal yn oedolyn sy'n wynebu risg – gwneud ymholiadau sy'n angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau
- Dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg – adran 128
 - Mae'r ddyletswydd yn gymwys i “bartneriaid perthnasol” awdurdodau lleol – gweler adran 162
 - Cyswllt â dyletswydd yr ALL i ymchwilio (adran 126) i “Oedolion sy'n wynebu risg” – noder y diffiniad (person nad yw'n gallu amddiffyn ei hun o ganlyniad i anghenion am ofal a chymorth)
- Dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg – adran 130
 - Mae'r ddyletswydd yn gymwys i bartneriaid perthnasol awdurdodau lleol
 - Cyswllt â dyletswydd yr ALL i ymchwilio, adran 47 o Ddeddf Plant 1989

Rhan 7: Diogelu (2) – Gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion adran 127

- Gwneud cais i'r ynad heddwch
- Y diben yw galluogi'r swyddog -
 - i gael sgwrs breifat gyda'r person;
 - i ganfod a yw'r person yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd;
 - i asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd
- Y seiliau
 - Sail resymol dros amau bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg
 - Mae'n angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael gweld y person er mwyn asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg a gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau i'w cymryd
 - Mae gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r diben
 - Ni fydd arfer y pŵer mynediad yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso

Rhan 8: Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol

- Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol - ystyr
 - Gweler Atodlen 2
- Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol
 - Mae'r cymwyseddau wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145
- Codau
 - Gall cod gynnwys gofynion a chanllawiau
 - Gall cod ddarparu na chaiff awdurdodau lleol wyro oddi wrth y gofynion mewn cod hyd yn oed os bydd yr awdurdod yn ystyried bod rheswm da iddo beidio â chydymffurfio â gofyniad
- Ymyrraeth gan lywodraeth ganolog – cydgrynhoi'r darpariaethau presennol yn adran 7D o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ac adran 50A o Ddeddf Plant 2004

Rhan 9: Cydweithrediad

- **Cydweithrediad - cyffredinol**
- Wedi ei fodelu ar adran 25 o Ddeddf Plant 2004
- Mae adran 163 yn diwygio adran 25 i adlewyrchu iaith y Ddeddf, gan gynnwys ystyr “well-being”
- **Cydweithrediad - penodol**
- Wedi ei fodelu ar adran 27 o Ddeddf Plant 1989, na fydd yn gymwys i Gymru bellach
- Bydd y rheoliadau Diwygiadau Canlyniadol yn ychwanegu adran newydd 164A at y Ddeddf a fydd yn cadw’r dyletswyddau cydweithredu trawsffiniol presennol yn adran 27



Getting in on the Act

Aseiad o'r boblogaeth

Pwy	<ul style="list-style-type: none">• Awdurdodau lleol• Byrddau iechyd lleol
Beth	<ul style="list-style-type: none">• Aseu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol, a chynorthwyo anghenion y gofalwyr
Sut	<ul style="list-style-type: none">• Yw'r anghenion yn cael eu diwallu?• Ystod a lefel y gwasanaeth sydd ei angen – gwasanaethau ataliol?• Sut maen nhw'n cael eu cyflenwi yn y Gymraeg?

Rhan 9: Trefniadau partneriaeth

- Mae rheoliadau o dan adran 166 wedi cael eu gwneud sy'n ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth gael eu gwneud rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ei ardal, o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Bydd y trefniadau presennol ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd bellach yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau hyn ond byddant yn cael eu hestyn er mwyn cynnwys atgyfeiriadau mewn perthynas ag achosion eraill
- Gall y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth sefydlu cronfeydd cyfun. Bydd cronfeydd cyfun mewn perthynas â chomisiynu llety cartref gofal yn ofynnol o fis Ebrill 2018.

Rhan 10: Cwynion a sylwadau

- **Cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol**
 - Cydgrynhoi'r gyfraith bresennol
 - Bydd rheoliadau presennol yn parhau i fod yn gymwys ac yn cael eu trin fel pe baent wedi eu gwneud o dan Ran 10.
- **Cwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol preifat**
 - Darpariaeth newydd mewn grym o 1 Tachwedd 2014

Rhan 11: Amrywiol a chyffredinol (1)

- **Ymchwil**
 - Cydgrynhoi'r gyfraith bresennol
- **Methiant darparwr**
 - Dyletswydd dros dro newydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddiwallu anghenion pobl sy'n cael gwasanaethau a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, os bydd methiant darparwr.
 - Gweler adran 50 o'r Ddeddf Ofal ar gyfer dyletswydd gyfatebol i ddiwallu anghenion pobl sy'n cael gwasanaethau a gomisiynwyd gan awdurdodau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- **Adennill costau**
 - Cydgrynhoi'r gyfraith bresennol, gan gynnwys adennill costau trawsffiniol mewn perthynas â phlant



Oedolion a phlant yn yr ystâd ddiogeled



Getting in on the Act



Dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol lle mae oedolion yn yr ystâd ddiogeled



Dyletswyddau ar gyfer yr awdurdod lleol 'cartref' y plant yn yr ystâd ddiogeled



Rhai gwaharddiadu: bod yn ofalwr, taliadau uniongrychol, dewis llety, eiddo wedi'i ddiogelu

Rhan 11: Amrywiol a chyffredinol (2)

- **Preswylfa arferol**
- Cydgrynhoi'r gyfraith bresennol
- Mae Atodlen 1 i Ddeddf Gofal 2014 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â lleoliadau trawsffiniol. Mae cyfarwyddyd i gefnogi
- Mae rheoliadau o dan adran 194 yn darparu nad yw'r egwyddor "barnu" ond yn gymwys i bobl sy'n byw mewn llety cartref gofal
- **Anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd**
- Dim ond yn gymwys i anghydfodau o fewn Cymru
- Bydd anghydfod sydd ag elfen drawsffiniol yn cael ei ystyried yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf Ofal neu adran 30(2C) o Ddeddf Plant 1989.

Gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

- Mae'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl yn ddyletswydd ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol
- Ysgogir y ddyletswydd os bodlonir yr amodau yn adran 117, e.e. wedi ei gadw'n gaeth yn y gorffennol o dan adran 3 o Ddeddf 1983
- Mae adran 117 wedi ei diwygio gan adran 75 o Ddeddf Gofal 2014:
 - Diffiniad o “after-care services”
 - Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol wedi ei bennu gan breswylfa arferol person cyn iddo gael ei gadw'n gaeth
 - Bydd anghydfodau rhwng ALLau Cymru ynghylch ble yr oedd person yn preswyl fel arfer i gael eu dyfarnu yn unol â rheoliadau o dan adran 194

Cychwyn

- Mae rhannau penodol o'r Ddeddf eisoes wedi eu cychwyn (1 Tachwedd 2014):
 - Gwasanaeth mabwysiadu ar y cyd (adran 170, mewnosod adran 3A i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002)
 - Pwerau newydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Rhan 10, Pennod 2, mewnosod Rhannau newydd 2A a 2B yn Neddf OGCC 2005)
- Swmp o'r Ddeddf i gael ei gychwyn ar 6 Ebrill 2016.
- Bydd rheoliadau o dan y Ddeddf hefyd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016

Trefniadau Trosiannol

- Bydd trefniadau trosiannol yn gymwys i bobl sydd eisoes yn cael gwasanaethau ar y dyddiad cychwyn.
 - Bydd deddfwriaeth bresennol yn gymwys nes bod adolygiad wedi ei gynnal
 - Rhaid cynnal adolygiad o fewn 12 mis (oedolion) neu 6 mis (plant)
- Bydd trefniadau trosiannol hefyd yn gymwys i bobl sydd wedi ymrwymo i gytundebau ar daliadau gohiriedig cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Bydd trefniadau presennol yn diogelu'r ffioedd sy'n ddyledus cyn ac ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym.
- Trefniadau trosiannol eraill mewn perthynas â:
 - Phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya
 - Cofrestrau golwg
 - Penodi cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol
 - Preswylfa arferol

UNRHYW GWESTIYNAU?

- I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i “Hyb Gwybodaeth a Dysgu” Cyngor Gofal Cymru
- www.cgcyrmru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf